CYNGOR BRO LLANLLWNI 11 MAI 2015

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 11 Mai 2015 am 8.00yh.

Is-gadeirydd: Eric Davies
Clerc: Eirlys Owen

Croesawodd yr Is-gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a chroesawyd Eurig Davies yn ôl wedi derbyn triniaeth. Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i'r Cadeirydd sef Dewi Davies a oedd yn yr ysbyty. Dymunwyd pob dymuniad da i Tom Jones yn dilyn triniaeth yn ddiweddar.

PLISMONA
Croesawyd Eleri Bonning ac Adam Thomas i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar ddiogelwch.

Y CAE CHWARAE:
Yr oedd y Clerc wedi cysylltu â'r cwmni yswiriant a phenderfynwyd yn unfrydol i adnewyddu'r yswiriant ddechrau mis Mehefin. Yr oedd y Clerc yn mynd i dderbyn gwybodaeth bellach gan y cwmni yswiriant yn y dyddiau nesaf. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Is-gadeirydd petai angen. Yr oedd y pyst pêl-droed wedi eu gosod yn y lle priodol. Diolchwyd i Tommy Davies am fenthyca'r peiriant ar gyfer y dasg ac i Melfyn Evans am wneud y gwaith.

MABOLGAMPAU
Byddai'r Gymdeithas Rieni yn helpu i drefnu y diwrnod. Yr oeddent wedi cynnig bod angen gwobrau deniadol ar y diwrnod. Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr y byddai unrhyw elusen a fyddai'n dod â stondin i'r cae chwarae yn cadw elw'r stondyn. Byddai'r Cynghorwyr yn y fynedfa ar y dydd a byddai'r Cyngor Bro yn rhannu'r tâl mynediad rhwng yr elusennau priodol.
Byddai yswiriant y Cyngor Bro yn cael ei ddefnyddio ar ddiwrnod y mabolgampau gan mai'r Cyngor Bro sydd yn cynnal y diwrnod ar y cae chwarae.

CYLLID
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 06 Gorffennaf 2015 am 8yh.